# Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

**Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant**

**Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg**
**Adolygiad Ymarfer Plant Cryno**

**Parthed: CTMSB 06/2021**

## Amlinelliad bras o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr Adolygiad

*I'w cynnwys yma:*

- *Y cyd-destun cyfreithiol yn y canllawiau sy'n berthnasol i'r adolygiad yma*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser a gafodd ei adolygu a pham*
- *Llinell amser sy'n crynhoi'r digwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu mewn atodiad*

1.1 Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion/Plant ym mis Ionawr 2022.

1.2 Mae'r ddeddfwriaeth yn amlinellu bod yn rhaid i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gynnal Adolygiad Ymarfer Plant cryno yn ei ardal pan fo achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn naill ai wedi digwydd neu mae amheuaeth ei fod e wedi digwydd, ac mae'r plentyn:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad; **ac**
- nad oedd enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu'r dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad.

Diben Adolygiad Ymarfer Plant yw nodi dysgu amlasiantaeth er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol.

**1.3 Cefndir a Chyd-destun Teuluol**

Mae amgylchiadau achos Plentyn C fel a ganlyn:

Roedd Plentyn C yn 9 oed pan fu farw. Cafwyd hyd iddi o dan y dŵr yn y bath ym mis Medi 2021, ar ôl cael ei gadael heb oruchwyliaeth. Roedd gan blentyn C oedi datblygiadol, epilepsi ac anableddau dysgu, gan arwain at anghenion sylweddol a chymhleth. Disgrifiodd ymarferwyr a oedd yn ymwneud â Phlentyn C hi fel plentyn egnïol, difyr a oedd yn aml yn benderfynol ac yn ewyllysgar wrth benderfynu beth roedd hi eisiau ei wneud. Awgrymwyd y gallai Plentyn C gyfathrebu i raddau cymedrol, ond y byddai llwyddiant hyn yn dibynnu ar ei hwyliau a'i hamgylchedd.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r llinell amser, roedd Plentyn C yn byw gyda'i brawd hŷn (Plentyn D), ei chwaer hŷn (Oedolyn F), ei mam a phartner ei mam nad oedd yn dad biolegol Plentyn C na'i brodyr a chwiorydd. Roedd tad biolegol plentyn C wedi marw yn 2019, ar ôl aros yn briod â'i mam tan yr amser hwn. Byddai mam-gu plentyn C ar ochr ei mam yn cymryd cyfrifoldebau gofalu am y plant yn rheolaidd pan oedd ei mam yn gweithio.

Cafodd mam plentyn C ddiagnosis o iselder ac mae cofnodion yn dangos ei bod hi'n cael meddyginiaeth i reoli'r cyflwr yma.

Ar ddiwedd y llinell amser, roedd Oedolyn F, a oedd hefyd wedi cael diagnosis o epilepsi ac anableddau dysgu cymedrol, yn byw mewn darpariaeth byw â chymorth yn dilyn honiadau o gam-drin corfforol yn erbyn partner ei mam.

Roedd y teulu wedi bod yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ers 2010 ac roedd enwau Plentyn C a'i brodyr a chwiorydd wedi'u rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddau achlysur gwahanol. Y cyfnod cyntaf oedd Ebrill 2014 i Ragfyr 2014 o dan y categori Niwed Corfforol. Yr ail gyfnod oedd Tachwedd 2019 i Ionawr 2021, o dan y categorïau Esgeulustod a Cham-drin Rhywiol.

Adolygwyd ymarfer o 1 Medi 2020 i 13 Medi 2021. Mae hyn yn cyfrif am y 12 mis cyn marwolaeth Plentyn C.

**1.4 Crynodeb o ymglymiad asiantaeth yn ystod y llinell amser**

- O ystyried ei hanghenion iechyd cymhleth, Roedd Plentyn C o dan ofal Niwroleg Pediatrig ar gyfer epilepsi. Roedd hi hefyd yn cael ei gweld yn rheolaidd gan Nyrs Epilepsi Arbenigol. Roedd hi'n derbyn meddyginiaethau i helpu i reoli'r epilepsi ac mae cofnodion yn dangos nad oedd hi wedi cael pyliau ers tua 2 flynedd cyn ei marwolaeth. Serch hynny, mae rhai arwyddion sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr adolygiad yma, sy'n awgrymu efallai nad oedd hyn yn gwbl gywir. Mae wedi dod i'r amlwg y gallai fod wedi cael trawiad yn fwy diweddar er nad oes unrhyw gofnodion o hyn wedi'u datgelu i'r adolygiad yma. Yn ystod y llinell amser roedd apwyntiadau Paediatreg, Radioleg a Niwroleg wedi'u trefnu ar gyfer Plentyn C. Cafodd ei chwaer,

Oedolyn F, ddiagnosis o epilepsi hefyd ac roedd o dan ofal Seiciatreg Anableddau Dysgu oherwydd bod ganddi anghenion dysgu cymedrol.

- Ym mis Medi 2020, dechreuodd Plentyn C mewn ysgol arbennig leol. Roedd ganddi gyfradd presenoldeb o 95% yn 2020/21 ac roedd hi wedi ymgysylltu â'r ddarpariaeth hybiau grŵp agored i niwed brys yn ystod cyfnod cloi Covid-19 rhwng Ionawr 2021 – Ebrill 2021. Roedd chwaer Plentyn C, Oedolyn F, wedi bod yn gyn-ddisgybl yn yr ysgol felly roedd staff yr ysgol yn adnabod y teulu.

- Fel y crybwyllwyd uchod, roedd y teulu wedi bod yn hysbys i'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ers dros ddegawd. Roedd Gweithiwr Cymdeithasol Carfan Plant Anabl wedi bod yn ymwneud â Phlentyn C cyn ac yn ystod y llinell amser, mewn ymateb i'w hanghenion asesedig a oedd angen gofal a chymorth amlasiantaethol. Cyn y llinell amser, ychwanegwyd Plentyn C a Phlentyn D at y Gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Tachwedd 2019 o dan y categorïau Esgeulustod a Cham-drin Rhywiol. Bryd hynny, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb o gydlynu'r Cynllun Gofal a Chymorth i Weithiwr Cymdeithasol Amddiffyn Plant i bob pwrpas er bod Gweithiwr Cymdeithasol y Garfan Plant Anabl yn parhau i ymwneud â'r teulu. Cafodd y brodyr a chwiorydd eu dadgofrestru ym mis Ionawr 2021, gan arwain at symud rôl y cydlynydd eto yn ôl i'r Garfan Plant Anabl ym mis Mehefin 2021. Roedd hyn yn 6 mis ar ôl dadgofrestru o gymorth diogelu fel sy'n arferol.
  Mae'n werth nodi hefyd bod newid ym mis Ionawr 2021 yn y Gweithiwr Cymdeithasol o'r Garfan Plant Anabl a neilltuwyd i'r teulu, ar gais mam Plentyn C.

- Ar ddiwedd y llinell amser, roedd y Garfan Diogelu Oedolion yn ymwneud â'r teulu oherwydd honiadau o niwed corfforol a wnaed gan Oedolyn F yn erbyn partner ei mam. Dechreuwyd Ymchwiliad Oedolyn mewn Perygl ar 10 Mehefin 2021 i archwilio'r risgiau posibl i Oedolyn F.

  Yn dilyn hynny, cynhaliwyd cyfarfod strategaeth ar 14 Mehefin 2021 mewn perthynas â Phlentyn C a Phlentyn D er mwyn asesu eu lles a phenderfynu a oedden nhw'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Yma, penderfynwyd y byddai ymholiadau a47 yn cael eu cychwyn i benderfynu pa gamau y gallai fod angen eu cymryd i ddiogelu'r plant. Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, cwblhawyd canlyniad yr ymholiadau yma ar 28 Mehefin 2021. Y casgliad yw nad oes tystiolaeth o niwed arwyddocaol i'r naill blentyn na'r llall a chaewyd y mater.

- Mae Heddlu De Cymru yn ymwneud â Chyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant a Chynadleddau yn ystod cofrestru, gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ymholiadau a47 a ddisgrifir uchod a'r ymchwiliad i honiadau a wnaed gan Oedolyn F.

  Yn arwyddocaol, roedd cyfres o bum digwyddiad yn ymwneud â chanfod Plentyn D ar ei ben ei hun y tu allan i gartref y teulu neu adroddiadau ei fod ar goll yn ystod y llinell amser. Ymatebodd Heddlu De Cymru i'r pryderon yma, gan ddod o hyd i Blentyn D, mynd ag e adref ac, ym mron pob achos, cyflwyno Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd. Gwnaethpwyd yr hysbysiadau yma i gydnabod bod Plentyn D yn destun

cofrestriad a bydden nhw'n crynhoi sut yr oedd yn agored i niwed i'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant.

- Roedd darparwr gofal cartref yn ffynhonnell gyson o gymorth i'r teulu drwy gydol y llinell amser. Cyflogwyd y sefydliad yma gan fam Plentyn C drwy Daliadau Uniongyrchol i gefnogi Plentyn C y tu mewn a'r tu allan i gartref y teulu.[1] Byddai hyn yn cynnwys gweithgareddau fel chwarae, cymdeithasu a chymorth ymarferol yn y cartref.

## Dysgu mewn perthynas ag ymarfer a dysgu sefydliadol

*Nodwch bob pwynt dysgu sy'n codi yn yr achos yma (gan amlygu ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol.*

2.1 Cynhaliwyd sesiwn dysgu ar 27 Medi 2022. Mae'r sesiwn yma'n cael ei hwyluso er mwyn canolbwyntio ar ymarferwyr. Mae'n cael ei arwain gan adolygwyr a chadeirydd yr adolygiad ymarfer. Mae ymarferwyr yn cael eu hannog i rannu eu dealltwriaeth o ddigwyddiadau a nodi pwyntiau dysgu allweddol ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Aeth gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â theulu Plentyn C drwy amserlen y digwyddiadau. Roedden nhw'n gallu rhannu eu profiadau a nodi dysgu thematig. Roedd hyn yn ddealladwy yn heriol i rai, yn enwedig y rhai a oedd yn adnabod Plentyn C ac wedi gweithio'n uniongyrchol gyda hi. Serch hynny, roedd y grŵp yn canolbwyntio ar eu tasg, yn trafod meysydd ymarfer heriol mewn ffordd broffesiynol ac yn cefnogi llunio themâu dysgu yn fawr.

Mae teulu Plentyn C wedi cael gwybod am yr adolygiad hwn a chawson nhw gyfle i ymgysylltu â'r adolygwyr ond hyd yma ni chafwyd ymateb.

Ar ôl ystyried adborth uniongyrchol gan ymarferwyr a llinell amser gweithgaredd ymarfer, nododd yr adolygwyr y themâu dysgu canlynol:

- Rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau i nodi pryderon amddiffyn plant
- Cworwm ac ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir yn y Gynhadledd
- Rheoli cyfrifoldebau aml-asiantaeth ar gyfer plentyn anabl y tu allan i'r broses amddiffyn plant.

[1] Pan asesir bod angen gwasanaethau gofal a chymorth ar blentyn, mae'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yn gallu derbyn taliadau uniongyrchol a ariennir gan yr Awdurdod Lleol. Mae derbynwyr y taliadau uniongyrchol yn gallu dewis y darparwr gwasanaeth a thalu am y ddarpariaeth.

**2.2 Rhwystrau i rannu gwybodaeth aml-asiantaeth er mwyn nodi pryderon amddiffyn plant**

Roedd nifer o asiantaethau yn dod i gysylltiad rheolaidd â theulu Plentyn C yn cynnig ystod eang o wasanaethau er mwyn bodloni ei hanghenion cymhleth. Mae'r adolygiad yma wedi canfod, er ei bod hi'n amlwg roedd ehangder a gwerth o ran yr arbenigedd oedd ar gael, roedd rhwystrau o ran cydgysylltu'r wybodaeth hon yn effeithiol i lywio asesu a rheoli risg ar y cyd.

Rhaid nodi hefyd bod enghreifftiau da o rannu gwybodaeth briodol. Roedd y rhain yn cynnwys yr Heddlu yn darparu naratif o risgiau a gwendidau yn ymwneud â Phlentyn D trwy gyflwyno Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd, staff hebrwng ysgolion yn rhoi gwybod ar unwaith am ymddygiad anarferol mam Plentyn C i staff addysgu a'r cyfnewid cyflym rhwng y gwasanaeth Diogelu Oedolion a Gwasanaethau i Blant pan wireddwyd pryderon yn ymwneud ag Oedolyn F.

2.2.1 Newidiadau yn Rôl Cydgysylltydd y Cynllun Gofal a Chymorth

Roedd Plentyn C yn blentyn ag anableddau ag anghenion asesedig am ofal a chymorth oedd yn cael eu darparu ar draws nifer o asiantaethau, yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ystod cyfnod pan nad yw'r plentyn yn blentyn sy'n wynebu risg, mae angen cyfathrebu ar draws asiantaethau o hyd o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydlynu'n briodol.

Mae Adran 145 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn datgan bod yn rhaid i'r awdurdod lleol:

> *sicrhau bod unigolyn a enwir i gydgysylltu'r gwaith o baratoi, cwblhau, adolygu, cyflawni a diwygio'r cynllun.*
>
> *Bydd cyfrifoldebau'r rôl hon yn cynnwys … [i] gweithredu fel ffocws cyfathrebu ar gyfer gwahanol ymarferwyr a'r unigolyn.*
> Dyma ragor o fanylion.

Fel y crybwyllwyd yn yr adran flaenorol, trosglwyddwyd yr arweinydd yn rôl y Cydlynydd Cynllun Gofal a Chymorth ac Amddiffyn rhwng Gweithwyr Cymdeithasol yn y Garfan Plant Anabl a'r Garfan Diogelu Plant yn ystod y llinell amser. Er ei bod hi'n ymddangos bod y broses hon wedi'i sefydlu i hyrwyddo arbenigedd o fewn gweithdrefnau diogelu, roedd yn ymddangos bod y newid mewn personél yn creu heriau.

Amlygodd myfyrdodau ymarferwyr yn y sesiwn dysgu sut y byddai cadw'r gweithiwr cymdeithasol arweiniol gwreiddiol, hyd yn oed ar ôl i brotocolau amddiffyn plant gychwyn, fod wedi helpu i sicrhau bod gan asiantaethau eraill, yn ogystal â'r teulu, un llinell gyfathrebu gyson. Nodir bod cofnodion yn dangos bod mam Plentyn C yn teimlo y gallai ymgysylltu'n well â'r Gweithiwr Cymdeithasol Amddiffyn Plant.

Yn nodedig, mae hyn yn dilyn methiant yn y berthynas â Gweithiwr Cymdeithasol y Garfan Plant Anabl a ddigwyddodd ar ôl iddyn nhw gynnal ymholiad adran 47 mewn ymateb i honiad a wnaed gan Blentyn C am bartner y fam. Byddai prosesau diogelu fel arfer yn dod o dan y garfan diogelu a oedd yn ymwneud â'r teulu, ond doedden nhw ddim ar gael i ymateb ar y pryd.

Roedd gweithiwr cymdeithasol y Garfan Plant Anabl wedi datblygu perthynas waith dda gyda'r teulu yn ystod y tair blynedd cyn i Blentyn C gael ei neilltuo i'r Garfan Diogelu yn dilyn pryderon amddiffyn plant. Parhaodd gweithiwr cymdeithasol y Garfan Plant Anabl i ganolbwyntio ar anghenion a chymorth penodol i anabledd.

Casgliad yr Adolygiad yw bod Gweithiwr Cymdeithasol y Garfan Plant Anabl wedi gweithredu'n briodol wrth gynnal sgyrsiau anodd gyda mam Plentyn C lle'r archwiliwyd pryderon ynghylch rhianta yn benodol. Nodir yr ymdeimlad hwn o chwilfrydedd a her broffesiynol fel arfer da.

Mae'r adolygwyr yn awgrymu y byddai cronfa wybodaeth helaeth am y teulu a'u rhwydweithiau cymorth fod wedi'i chadw drwy gynnal un gweithiwr proffesiynol Gofal Cymdeithasol i Blant, a allai fod wedi'i wanhau yn sgil cyflwyno gweithiwr cymdeithasol arweiniol newydd. Roedd yr amgylchiadau yma'n rhwystro cydgysylltu aml-asiantaethol effeithiol a rhannu gwybodaeth ac yn rhwystr i risg a oedd yn dod i'r amlwg rhag bod yn weladwy.

<u>2.2.2 Deall pwysigrwydd arbenigedd iechyd wrth roi'r darlun ehangach at ei gilydd</u>

Fel y nodwyd, roedd sawl gweithiwr proffesiynol yn cyfrannu'n weithredol at ofal iechyd Plentyn C gan gynnwys Nyrs Arbenigol Epilepsi, Ymgynghorydd Epilepsi, Clinigwr Pediatrig, Meddyg Teulu, Niwrolegydd a Nyrs Ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu cymhlethdod ac ehangder anghenion Plentyn C ond, yn yr achos hwn, datblygodd hefyd yn rhwystr ar gyfer cydgysylltu arbenigedd iechyd i lywio penderfyniadau amddiffyn plant hanfodol a gweithgarwch cynllun gofal a chymorth.

Byddai cynrychiolwyr iechyd, er eu bod yn effro i'r wybodaeth bwysig a'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar Blentyn C a'i theulu, fod wedi elwa ar broses fwy cadarn o rannu gwybodaeth. Byddai hyn wedi ychwanegu eglurder ynghylch pa wybodaeth i'w rhannu ag asiantaethau eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhoi gwybod i Gwasanaethau i Blant am apwyntiadau meddygol a gollwyd a'r asesiad ymolchi yn y cartref a gwybodaeth am ddiogelwch epilepsi yn cael eu rhannu â'r ysgol yn unig.

Chafodd yr wybodaeth hon, a allai fod wedi bod yn hanfodol i gadw Plentyn C yn ddiogel, mo'i rhannu ymhlith asiantaethau lluosog naill ai fel gweithred annibynnol neu fel rhan o brosesau mwy ffurfiol megis cyfarfod carfan aml-asiantaeth neu drafodaeth strategol a chynadleddau amddiffyn plant. O ganlyniad, doedd dim modd llywio'r cynllun gofal a chymorth na'r cynllun gofal a chymorth amddiffyn plant na'i ddefnyddio fel gwybodaeth i lywio dadansoddiad risg amlasiantaethol. Roedd hyn hefyd yn golygu nad oedd ar gael i'r

grŵp craidd amddiffyn plant er mwyn datblygu a chyflwyno'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth.

O ran Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant, mae'r adolygwyr wedi dod i'r casgliad bod disgwyl i un pwynt cyswllt ar gyfer Iechyd ddarparu gwybodaeth ansoddol, fanwl gywir ar ran yr holl ymarferwyr arbenigol yn her. Ymddengys mai'r dewis arall yw y byddai angen cynrychiolaeth o bob maes i fwydo'n uniongyrchol i asesiadau a fforymau gwneud penderfyniadau. Mae'n annhebygol y byddai hyn yn ddefnydd cymesur o adnoddau iechyd. Mae'n rhesymol disgwyl i'r Bwrdd Iechyd nodi'r ymarferydd mwyaf addas i fod yn sianel rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol gweithredol a chyflwyno'r holl wybodaeth berthnasol i'r gynhadledd. Yn yr un modd, dylai Swyddogion Adolygu Annibynnol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol plant arweiniol holi am bresenoldeb a chyfraniad asiantaethau mewn cyfarfodydd hanfodol ar y pryd er mwyn pennu a gwahodd gweithwyr proffesiynol perthnasol yn ôl yr angen.

<u>2.2.3 Goruchwylio pryderon am Oedolion Mewn Perygl ac ymholiadau Amddiffyn Plant sy'n ymwneud â'r un teulu</u>

Ym mis Mehefin 2021, cychwynnwyd ymchwiliad Oedolyn mewn Perygl yn ymwneud ag Oedolyn F ac ymchwiliad amddiffyn plant mewn perthynas â Phlentyn C a Phlentyn D. Mae yna ymdeimlad y gallai'r rhain fod wedi'u halinio'n agosach o ystyried pa mor gyffredin oedd y risg bosibl. Mae'n amlwg oedd cyfathrebu cyflym rhwng y garfan Diogelu Oedolion a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant unwaith y datgelwyd pryder gan Oedolyn F. Yn ogystal, cymerwyd camau ar unwaith, gan gynnwys darparu gofal seibiant, i liniaru yn erbyn unrhyw risg posibl i Oedolyn F.

Serch hynny, ni ddatblygodd y ddwy broses ochr yn ochr ac roedd oedi i'r ymholiadau Oedolyn Mewn Perygl yn golygu bod yr ymchwiliad amddiffyn plant wedi'i gwblhau'n gynt. Er bod yr olaf yn briodol ac yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, gallai cyfleoedd i ddeall yn llawn ehangder yr wybodaeth a rennir a'i heffaith ar bob aelod o'r teulu fod wedi'u colli. Er enghraifft, yn dilyn cau'r ymchwiliad amddiffyn plant, datgelwyd ymhellach gan drydydd parti fod partner y fam yn elyniaethus ac yn ymosodol. Dyw hi ddim yn glir a gafodd yr wybodaeth yma ei chyfleu i Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant.

Arweiniodd y strwythur teuluol cymhleth yn yr achos yma a'r datgysylltiad rhwng y prosesau ymchwiliol diogelu plant ac oedolion at golli cyfle ar gyfer asesiad risg cynhwysfawr, cyfannol ar gyfer yr uned deuluol. Byddai cael un pwynt cyswllt, o safbwynt gofal cymdeithasol, yn cynnal trosolwg o wybodaeth wrth iddi ddod ar gael, dynameg risg ac anghenion o fewn y teulu wedi bod yn fuddiol. Byddai trosolwg o'r fath wedi helpu i sicrhau bod pryderon a ffactorau amddiffynnol yn ymwneud â Phlentyn C, Plentyn D ac Oedolyn F yn cael eu deall yn llawn ac yn cael ymateb.

<u>2.2.4 Nodi ffynonellau gwybodaeth hanfodol</u>

Trwy gydol y llinell amser, roedd y darparwr gofal cartref yn gyfrannwr hollbwysig wrth gefnogi Plentyn C a chynnig seibiant i'r teulu. Roedd gan y gweithiwr gofal cartref a

neilltuwyd i Blentyn C gysylltiad cyson a dwys iawn â hi a’r rhan fwyaf o aelodau’r teulu a byddai wedi bod yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth yn ymwneud ag ymddygiad, risg a ffactorau amddiffynnol. Mae'n ymddangos bod rhwystr wedi bod o ran rhannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth yn rheolaidd â'r gwasanaethau cymdeithasol, yn fwyaf tebygol oherwydd bod diffyg protocol rhannu gwybodaeth glir ar waith. Mae’r amserlen a’r trafodaethau yn ystod y sesiwn dysgu ymarferwyr yn amlygu y gallai cynlluniau gofal a chymorth ac o bosibl y cynllun diogelwch dŵr, fod wedi’u gwneud yn fwy cadarn ac unigolyddol pe bai llwybr clir i’r darparwr gofal gyfrannu at asesiadau deinamig.

2.2.5 Mae'n amlwg bod ystod eang o wasanaethau a chymorth yn cael eu darparu'n gyson i Blentyn C a'i deulu er mwyn bodloni amrywiaeth o anghenion. Thema a nodwyd yn yr adolygiad oedd yr her a gyflwynwyd wedyn o ran ymarferwyr yn deall pwy oedd yn cymryd rhan ac i ba raddau. Yn ogystal, gwanhawyd arferion rhannu gwybodaeth a'r wybodaeth am i bwy i ddatgelu gwybodaeth hanfodol gan arwain at rai risgiau oedd ddim yn gwbl weladwy. Yn olaf, gellid bod wedi gwella cydlyniant ar draws asiantaethau a strwythurau ymholiadau diogelu i gefnogi penderfyniadau cydweithredol sy’n cael eu gwneud am yr un teulu.   Mae'r adolygiad yma wedi nodi sut y mae'n bosibl fod angen cymorth a rheolaeth fwy effeithiol ar unedau teulu cymhleth o safbwynt amlddisgyblaethol.

**2.3 Cworwm ac ansawdd gwybodaeth mewn cynhadledd amddiffyn plant**

Cynhaliwyd y drydedd gynhadledd adolygu amddiffyn plant yn ystod yr amserlen adolygu ym mis Ionawr 2021. Rôl y gynhadledd adolygu yw trafod a dadansoddi risg gyfredol a phenderfynu a yw plant mewn perygl parhaus o gael niwed sylweddol.

Does dim modd i gynhadledd wneud penderfyniadau diogel oni bai bod gweithwyr proffesiynol gwybodus a theulu yn darparu gwybodaeth gywir sy'n ysgogi dadansoddiad deinamig sy'n arwain at ddarlun clir o risg gyfredol. Mae tri mater yn berthnasol yma. Presenoldeb proffesiynol gan gyfeirio at gworwm, dadansoddiad risg cynhwysfawr wedi'i gydlynu a'r risg o fod yn rhy optimistaidd.

2.3.1 Presenoldeb proffesiynol a chworwm
Roedd dwy asiantaeth yn bresennol yn y gynhadledd. Y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Mae hyn er bod anabledd Plentyn C wedi arwain at fewnbwn sylweddol gan y garfan Iechyd ac asiantaeth oedd yn rhoi cymorth uniongyrchol i Blentyn C. Lluniwyd adroddiad gan yr Heddlu a chafwyd diweddariadau gan y garfan Iechyd. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn dweud:

> *Rhaid i’r aelodau sy’n bresennol gael digon o wybodaeth a thystiolaeth i wneud penderfyniadau gwybodus…*
>
> *Fel arfer bydd rhaid i leiafswm o dair asiantaeth neu grŵp o ymarferwyr sydd wedi cael cyswllt uniongyrchol â phlentyn fod yn bresennol cyn y mae modd i gynhadledd fynd yn ei blaen.*
>
> *Mae modd i sefyllfaoedd godi lle dim ond dwy asiantaeth neu grŵp o ymarferwyr sy'n bresennol... O dan yr amgylchiadau yma, mae gan*

*gadeirydd y gynhadledd ddisgresiwn i'r gynhadledd fynd yn ei blaen, os yw'n fodlon bod gwybodaeth hanfodol ar gael, yn enwedig gan yr asiantaethau allweddol dan sylw. Rhaid cofnodi'r penderfyniad a'r rhesymeg i barhau yng nghofnodion y gynhadledd.*

*Mae'r gynhadledd adolygu angen cymaint o baratoi, ymrwymiad a rheolaeth â'r gynhadledd gychwynnol.*

Cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru yma ac yma

Dyw cofnodion y gynhadledd adolygu ddim yn cynnwys sail resymegol dros barhau â'r adolygiad heb fod â chworwm. Mae hyn er bod gweithwyr iechyd proffesiynol allweddol ddim yn bresennol. Er y dylid ceisio osgoi gohirio cynadleddau os oes modd, mae'n amheus o dan yr amgylchiadau yma a allai'r gynhadledd gyflawni ei rôl i benderfynu ar risg barhaus o niwed sylweddol gyda'r wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael.

2.3.2 Gwybodaeth gynhwysfawr wedi'i chydlynu

Pwynt allweddol a amlygwyd yn y sesiwn dysgu oedd mai dim ond yr wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno y mae cynhadledd amddiffyn plant yn gallu ei dadansoddi. Roedd gwybodaeth fanwl yn ymwneud â risg ar gael i bartneriaid aml-asiantaeth ond roedd yr wybodaeth yma'n absennol yn y gynhadledd gan adael y gynhadledd mewn sefyllfa wan i gyflawni ei rôl graidd.

Trafodir y rhesymau y tu ôl i hyn uchod. Mae'n amlwg y gallai'r gynhadledd adolygu amddiffyn plant fod wedi elwa ar bresenoldeb gweithwyr proffesiynol perthnasol ychwanegol a allai fod wedi arwain at gyfathrebu mwy effeithiol a nodi risgiau. Mae angen yr wybodaeth a'r dadansoddiad cywir i benderfynu ar niwed sylweddol. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi os yw dadgofrestru i ddigwydd yn ddiogel mae angen:

*Dylid rhoi a chofnodi rhesymau clir dros y penderfyniad, ynghyd â'r dystiolaeth o ran newidiadau yn ansawdd profiad bywyd y plentyn.*

Does dim modd i aelodau cynhadledd amddiffyn plant a chadeirydd y gynhadledd fod yn gyfrifol am wybodaeth am brofiad bywyd y plentyn sydd ddim ar gael iddyn nhw.  Wedi dweud hynny, dylai'r ymholiadau a47 cyn y gynhadledd gychwynnol geisio nodi gweithwyr proffesiynol allweddol sy'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu er mwyn hyrwyddo cyfranogiad y rhai sydd â gwybodaeth hanfodol.

Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan ymarferwyr Iechyd ehangach am Blentyn C yn hanfodol i'r gynhadledd. O ganlyniad i'r ffaith nad oedd y nyrs epilepsi wedi'i nodi fel rhywun oedd yn ymwneud â Phlentyn C yn rheolaidd a heb gael ei gwahodd, doedd dim modd archwilio unrhyw gysylltiadau rhwng yr wybodaeth am iechyd y plentyn sydd ar goll, gallu'r rhieni a'u harwyddocâd i Blentyn C. Yn ogystal, chafodd y darparwr gofal yn y cartref dim gwahoddiad i gynhadledd ar unrhyw adeg er gwaethaf ei ymgysylltiad sylweddol â Phlentyn C.

Mae sicrhau presenoldeb aml-asiantaeth cywir yn y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol yn hynod werthfawr.  Gyda gweithwyr proffesiynol aml-asiantaeth sy'n adnabod

y plentyn a'r teulu yn bresennol, mae unrhyw aelodau newydd o'r grŵp craidd yn debygol o gael gwybodaeth ddigonol a bydden nhw mewn sefyllfa gref i adolygu'r cynllun gofal a chymorth amddiffyn plant yn ofalus. Yn ei dro, dylai hyn sicrhau fod y gynhadledd adolygu amddiffyn plant yn cael ei diweddaru'n llawn ar gynnydd yn erbyn y deilliannau personol yn y cynllun. Byddai'r gynhadledd felly mewn sefyllfa gref i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a oes angen parhau i gofrestru er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn neu'r plant sy'n cael eu trafod.

2.3.3 Y perygl o fod yn rhy optimistaidd

Does dim tystiolaeth hysbys i'r panel adolygu ymarfer bod cysylltiad uniongyrchol rhwng epilepsi Plentyn C ac amgylchiadau ei marwolaeth. Does dim dogfennau i ddangos ei bod wedi cael pwl am tua 2 flynedd cyn ei marwolaeth, er bod gwybodaeth wedi'i datgelu yn ystod cyfnod yr adolygiad yma oedd yn awgrymu ei bod hi wedi cael trawiad yn fwy diweddar. Mae'n bosibl y dylai hynny fod wedi bod yn destun trafodaeth.  O bwys mwy yw'r pwynt uchod ynghylch darparu cyngor am ymolchi diogel a'r ffaith bod dim cawod yn y cartref. Gallai hyn fod yn fwy perthnasol i amgylchiadau marwolaeth Plentyn C. Gallai presenoldeb priodol gweithwyr iechyd ynghyd â gwybodaeth gan asiantaethau eraill am allu rhieni a'r gallu i ddadansoddi hyn yn feirniadol, fod wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i benderfyniad y gynhadledd i dynnu enw Plentyn C oddi ar y gofrestr amddiffyn plant. Heb yr wybodaeth yma, mae'n ymddangos yn bosibl bod gwybodaeth fwy cadarnhaol arall oedd ar gael i'r gynhadledd am allu'r rhieni wedi arwain at fod yn rhy optimistiaidd ynghylch y risg ar y pryd, gan arwain at ddadgofrestru.

Isod mae dau bwynt ychwanegol ond pwysig sy'n ymwneud ag adroddiadau'r Heddlu a chynadleddau amddiffyn plant a'r cyfrifoldeb aml-asiantaethol dros reoli grwpiau craidd.

*Adroddiadau'r Heddlu*
Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi, yn ogystal â darparu gwybodaeth berthnasol am euogfarnau a gwybodaeth am droseddau o gofnodion yr Heddlu i ddylanwadu adroddiadau cynhadledd a ddarperir gan yr Heddlu, mae angen iddo:

> *nodi sut mae'r troseddau'n debygol o effeithio ar anghenion diogelwch, gofal a chymorth y plentyn*.
> Cyfeiriad i Weithdrefnau Diogelu Cymru yma

Cyfrannwyd at y sesiwn dysgu gan Swyddogion yr Heddlu a oedd â chysylltiad uniongyrchol â brawd Plentyn C, Plentyn D. Nodwyd nad oedd llais Plentyn D mor glir i eraill gan mai ef oedd y plentyn tawelach. Clywsom fod Plentyn D yn rhedeg i ffwrdd o'i gartref gan ei fod yn cael ei dynnu at "bobl hapusach ac amseroedd hapusach," y tu allan i gartref y teulu a'i fod wedi rhannu'r wybodaeth yma â Swyddogion yr Heddlu. Mae hon yn enghraifft dda o sut mae modd i adroddiad yr Heddlu gyflawni ei gyfrifoldeb i Weithdrefnau Diogelu Cymru trwy hysbysu'r gynhadledd o wybodaeth ffeithiol am droseddau ac ychwanegu naratif am yr effaith ar brofiad bywyd y plentyn, ei ddiogelwch ac unrhyw ofal ac anghenion cymorth posibl.

*Cadeirio a chyfranogi mewn grwpiau craidd*
Cyfrannodd cadeirydd y gynhadledd adolygu amddiffyn plant at y sesiwn dysgu yn ystod trafodaeth am grwpiau craidd fel cyfrwng ar gyfer newid er mwyn lleihau risg.  Mae

Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn glir bod gan y grŵp craidd (gan gynnwys yr holl aelodau) berchnogaeth uniongyrchol ar y cynllun gofal a chymorth amddiffyn plant. Roedd tueddiad i fod yn or-ddibynnol ar y Gweithiwr Cymdeithasol i gadeirio a chymryd cofnodion ar gyfer y cyfarfod hollbwysig yma'n bwynt trafod. Mae angen i grwpiau craidd fod yn gyfarfodydd aml-asiantaeth gwirioneddol effeithiol sy'n edrych ar chwilfrydedd proffesiynol, gan ysgogi trafodaeth a llywio'r gynhadledd adolygu amddiffyn plant mewn ffordd briodol. Er mwyn cyflawni hyn mae angen i'r rôl fod yn gyfrifoldeb i holl aelodau'r grŵp craidd, sy'n eiddo i'r grŵp ac yn cael ei reoli ganddo, gan osgoi gorddibyniaeth ar y cydlynydd amddiffyn gofal a chymorth (gweithiwr cymdeithasol) fel y nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru:

> *Mae modd i unrhyw aelod sy'n ymarferydd o'r grŵp craidd gadeirio – nid cyfrifoldeb y cydlynydd amddiffyn gofal a chymorth (gweithiwr cymdeithasol) yn unig ydyw.*
> *Cyfeirnod Gweithdrefnau Diogelu Cymru*

**2.4 Cyfrifoldebau aml-asiantaeth dros reoli risg ar gyfer plentyn anabl neu blentyn sydd angen gofal a chymorth y tu allan i'r broses amddiffyn plant.**

A hithau'n blentyn ag anabledd, aseswyd bod gan Blentyn C, cyn llinell amser yr adolygiad yma, anghenion cymwys am ofal a chymorth. O dan yr amgylchiadau yma, pan nad yw enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi'n glir bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiadau aml-asiantaeth o'r cynllun gofal a chymorth. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Rhan 4 - Cod Ymarfer (diwallu anghenion) yn glir ynghylch yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i baratoi ac adolygu'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae dwy o'r egwyddorion yma'n rhagnodi y dylai'r arfer fod fel a ganlyn:

> ***Integredig:*** *Bydd cymorth i bobl a theuluoedd yn seiliedig ar fframwaith cyson a chyffredin ar draws gwasanaethau, ac yn cael ei weithredu gan ymarferwyr er mwyn sicrhau bod pobl yn cael mynediad amserol ac effeithiol at ofal a chymorth diogel.* .
>
> ***Diogelu ac amddiffyn:*** *Bydd pob ymarferydd yn effro i unrhyw risg o niwed i'r unigolyn neu i eraill – gan gynnwys eraill yn eu gofal. Bydd yr asesiad a'r cynlluniau gofal a chymorth yn archwilio'r ymatebion posibl i'r risgiau hynny ac yn cytuno ar ddulliau o reoli a/neu liniaru risg.*

2.4.1 Y disgwyliad o gyfathrebu aml-asiantaethol yn dilyn dadgofrestru

Mae modd i ni weld yma sut nad yw gweithgarwch pwysig o gynllunio a chyfathrebu aml-asiantaethol wedi'i gyfyngu i brosesau amddiffyn plant o bell ffordd. Mae modd i ni weld y dylid diogelu ac amddiffyn plant hefyd drwy waith rheoli risg ataliol sydd wedi'i integreiddio ar draws gwasanaethau. Yn benodol, amlygir gwaith ar y cyd rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaethau Iechyd yn y Cod Ymarfer fel "rhan allweddol o ofal iechyd a chymdeithasol effeithiol".

Mewn perthynas â'r pwynt yma â'r adran yn ein llinell amser rhwng y dyddiad y cafodd enw Plentyn C ei dynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant ar 5 Ionawr 2021 hyd at ei marwolaeth drist ar 13 Medi 2021, rydyn ni'n gweld cyferbyniad rhwng yr egwyddorion deddfwriaethol perthnasol uchod a'r cyfraniadau amlasiantaethol at gyfarfodydd cynllunio gofal a chymorth. Mae hyn ar adeg pan oedd Plentyn C wedi'i gweld yn ddiweddar iawn fel plentyn mewn perygl o gael ei hesgeuluso.

<u>2.4.2 Diffyg cyfranogiad asiantaethau allweddol mewn adolygiadau gofal a chymorth</u>

Mae llinell amser yr adolygiad ymarfer yn dangos bod adolygiad gofal a chymorth wedi'i gynnal ar 26 Mai 2021. Roedd hyn bedwar mis ar ôl y dyddiad y tynnwyd enw Plentyn C oddi ar y gofrestr amddiffyn plant. Dengys y cofnodion y cynhaliwyd y cyfarfod yma heb unrhyw un yn bresennol. Trefnwyd adolygiad gofal a chymorth arall ar gyfer 16 Mehefin 2021. Roedd cynrychiolwyr o'r ddwy ysgol berthnasol yn bresennol. Mae'n ymddangos nad oedd unrhyw sylwadau gan y Gwasanaeth Iechyd na'r asiantaeth oedd yn rhoi cymorth uniongyrchol i'r teulu. Yn ogystal, dyw'r cofnodion a ddarparwyd i'r panel ddim yn cynnwys unrhyw fanylion am y cynllun gofal a chymorth na deilliannau personol mesuradwy neu gamau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni'r deilliannau hynny a gafodd eu trafod.

<u>2.4.3 Yr hyn y mae'n rhaid i gynllun gofal a chymorth ei gynnwys</u>

Mae Cod Ymarfer Rhan 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi'r sylfeini ar gyfer sut mae deilliannau personol plentyn yn cael eu sefydlu drwy asesiad cymesur. Dylid "cyflawni'r asesiad yma'n rhan o ddull amlasiantaethol cydgysylltiedig o fynd i'r afael ag anghenion sylfaenol". Mae'r deilliannau personol yma'n cael eu penderfynu ar y cyd rhwng gweithwyr proffesiynol a'r teulu sy'n llywio'r cynllun gofal a chymorth yn uniongyrchol. Mae Cod Ymarfer Rhan 4 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gwahaniaethu rhwng yr hyn y *mae modd* i gynlluniau gofal a chymorth ei nodi a'r hyn y mae'n rhaid iddyn nhw ei *gynnwys*. Mae'n amlwg yn Neddf 2014 bod yn *rhaid* i'r cynllun gofal a chymorth fesur "Sut y bydd cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny yn cael eu monitor a'u mesur" a hefyd mai'r adolygiad gofal a chymorth yw'r cyfrwng ar gyfer mesur os yw'r deilliannau amlasiantaethol sydd wedi'u cydgynhyrchu wedi'u cyflawni.

<u>2.4.4 Beth sy'n gwneud adolygiad gofal a chymorth yn effeithiol?</u>

Er ei fod yn rhagofyniad angenrheidiol, ddylai effeithiolrwydd cyfarfod adolygu gofal a chymorth ddim cael ei fesur yn ôl nifer y gwahanol fathau o weithwyr proffesiynol sy'n bresennol. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i'r rhai sy'n bresennol fod yn glir sut mae'r cynllun gofal a chymorth amlasiantaethol yn bodloni'r deilliannau personol a aseswyd ar gyfer plant ag anghenion gofal a chymorth wrth fod yn effro i unrhyw risgiau posibl er mwyn atal neu liniaru niwed.

<u>2.4.5 Mae'r cynllun gofal a chymorth yn eiddo i'r grŵp aml-asiantaethol</u>

Yn dilyn y gynhadledd amddiffyn plant olaf, o fewn chwech mis cynhaliwyd dau adolygiad gofal a chymorth aml-asiantaethol. Roedd diffyg cyfranogwyr allweddol yn y ddau, a doedd dim cynrychiolaeth o'r Adran Iechyd na'r asiantaeth sy'n darparu cymorth uniongyrchol. Yn ogystal, mae'n ymddangos na welwyd yr un o'r ddau adolygiad ar gynnydd asiantaethau tuag at yr hyn oedd ei angen i'w chadw'n ddiogel. Er mai cyfrifoldeb yr ymarferydd sydd wedi datblygu'r cynllun yw sicrhau bod cadarnhad clir a chryno o'r camau gweithredu y

cytunwyd arnyn nhw, a phwy fydd yn eu cyflawni, mae adolygu'r cynllun yn gyfrifoldeb aml-asiantaethol. Yn ogystal, ar ôl i garfan diogelu'r Awdurdod Lleol roi'r gorau i'w cyfranogiad ym mis Gorffennaf 2021, a chyfrifoldeb yr Ymarferydd Arweiniol bellach wedi'i drosglwyddo i'r Garfan Plant Anabl, dywedodd gweithwyr addysg proffesiynol nad oedden nhw wedi cael gwybod am enw gweithiwr cymdeithasol Plentyn C.

2.4.6 Pwysigrwydd cyfeirio pryderon rhwng asiantaethau at lefel uwch

Hefyd, lle nad yw dyletswyddau'n cael eu cyflawni mewn ffordd a ragnodir gan y ddeddfwriaeth berthnasol ac a allai wneud plant yn agored i niwed y mae modd ei atal, mae unrhyw asiantaeth sy'n ymwneud â Phlentyn C yn gallu uwchgyfeirio pryderon ac mae ganddo gyfrifoldeb dros wneud hynny. Amlinellir hyn yn glir yn adran 4 o'r adran 'Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed' o Weithdrefnau Diogelu Cymru o'r enw *'Dad-gofrestru'*. Yn ystod y cyfnod yma ni chafwyd unrhyw her broffesiynol hysbys, ac mae modd i ni weld sut na wireddwyd y syniad o gefnogaeth integredig aml-asiantaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant o dan yr amgylchiadau yma. Mae'n bosibl bod gor-optimistiaeth ar ôl i enw Plentyn C gael ei dynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant wedi annog amgylchedd lle'r oedd risg yn bresennol a doedd y grŵp aml-asiantaethol ddim yn gallu gweld hyn.

2.4.7 Rhwystrau i well cyfathrebu a heriau rhyngasiantaethol a mater systemig

Roedd amgylchiadau heriol pandemig Covid 19 ar yr adeg yma'n real iawn. Cyflwynwyd cymhlethdodau ychwanegol sylweddol i weithwyr proffesiynol ar yr adeg yma ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn llawn. Cydnabuwyd hefyd yn sesiwn dysgu'r adolygiad ymarfer fod Plentyn C yn hysbys i amryw o weithwyr proffesiynol amlasiantaethol a oedd yn angerddol am eu rolau ac yn meddu ar barodrwydd diamod i fod yn rhan o system sy'n canolbwyntio ar y plentyn a oedd yn cadw plant yn ddiogel. Mae'n parhau i fod yn aneglur beth oedd y rhwystr i bresenoldeb aml-asiantaethol, trafodaeth briodol o'r cynllun gofal a chymorth gwybodus a, lle bo angen, yr her broffesiynol adeiladol.

Does dim modd i ni ddweud a fyddai Plentyn C wedi dioddef y niwed a wnaeth pe bai'r cyfarfodydd gofal a chymorth wedi'u cynnal yn unol â'r disgwyliadau deddfwriaethol. Credir ei bod yn rhesymol, lle mae grŵp o weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd fel system amlasiantaethol gyda golwg gyfunol glir o'r amgylchiadau presennol a'r risgiau posibl a'r risgiau sy'n dod i'r amlwg, mai'r grŵp aml-asiantaeth hwn wedyn sydd yn y sefyllfa orau i atal neu liniaru niwed.

2.4.8 Cyfleu risgiau diogelwch dŵr

Yn ystod y sesiwn dysgu sy'n ymwneud â'r adolygiad ymarfer yma, cynhaliwyd trafodaeth helaeth ar fater diogelwch dŵr. Darparwyd gwybodaeth iechyd yn ymwneud â hyn a'r potensial i gael pyliau o epilepsi. Mae cofnodion iechyd yn glir y rhoddwyd Cynllun Gofal Epilepsi gyda thaflen rhagofalon diogelwch, yn cynnwys cyngor ar ddiogelwch dŵr, i fam y Plentyn a'r ysgol ar 1 Gorffennaf 2020. Dywedwyd yn y Sesiwn Dysgu bod taflenni cyngor diogelwch dŵr yn cael eu darparu'n flynyddol i fam Plentyn C, ynghyd â chyfarwyddiadau llafar yn ystod pob apwyntiad gyda'r Nyrs Epilepsi Arbenigol. Gallai fod manteision clir pe bai hyn wedi'i adlewyrchu'n glir mewn cofnodion iechyd, yn benodol gyda naratif ynghylch sut y cafodd dealltwriaeth mam Plentyn C o'r canllawiau yma ei mesur a'i sicrhau. Mae'n werth nodi bod y cyngor a roddir ar ddiogelwch dŵr yr un fath ar gyfer pob plentyn ag

epilepsi ac mae'n cael ei bennu'n genedlaethol gan ddogfen 'National Epilepsy 12 Audit' y Coleg Brenhinol.

Roedd ymdeimlad, a gyfathrebwyd yn y sesiwn dysgu, nad oedd gweithwyr proffesiynol y tu allan i'r adrannau Iechyd ac Addysg yn deall amgylchiadau a disgwyliadau rhieni'n llawn mewn perthynas â rhagofalon yn ymwneud â bath. Roedd hyn yn ei dro yn golygu nad oedd y cyfrifoldeb diogelwch yma, sydd gan y rhai â chyfrifoldeb rhiant, yn cael ei adlewyrchu mewn trafodaethau cynllunio gofal a chymorth aml-asiantaethol. Yn ogystal, doedd dim traofdaeth nac asesiad risg amlasiantaethol gan un asiantaeth mewn perthynas â chael bath diogel.

Gan gydnabod presenoldeb tuedd wrth edrych yn ôl, gallai hefyd fod wedi bod yn fuddiol yn y cyd-destun yma i gyngor gan Therapydd Galwedigaethol Pediatrig lywio penderfyniadau ynghylch trefniadau rhoi bath gartref.

Er bod yr uchod yn berthnasol i'r thema dysgu aml-asiantaeth yma, rhaid ystyried y naratif yma yn y cyd-destun bod dim cofnod iddi gael trawiad am tua 2 flynedd cyn ei marwolaeth. Roedd y cofnod diweddaraf o drawiad ym mis Mehefin 2019 ac nid oes tystiolaeth i awgrymu cysylltiad uniongyrchol rhwng ei hepilepsi ag amgylchiadau ei marwolaeth. Mae hefyd yn bwysig nodi y gallai Plentyn C fod wedi cael trawiad epileptig ar unrhyw adeg. Hefyd, byddai wedi bod yn rhesymol yn ystod yr wyth mis rhwng tynnu enw Plentyn C oddi ar y gofrestr amddiffyn plant o dan y categori esgeulustod a'i marwolaeth drasig i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r bath gael sylw amlasiantaethol yn rhan o gynllunio gofal a chymorth yn y gynhadledd ôl-adolygiad.

## 2.5 Themâu Ymarfer Effeithiol

Darpariaeth Gwasanaeth Cyson yn ystod COVID-19

- Mae cofnodion yn adlewyrchu bod rhieni Plentyn C yn arbennig o bryderus am COVID-19. Gallai hyn fod wedi achosi rhwystr sylweddol ond roedd asiantaethau'n rhagweithiol wrth gadw cysylltiad a diwallu anghenion y teulu.
- Cynigiwyd darpariaeth hwb brys i Blentyn C yn ystod y cyfnod cloi (18/12/20 – 18/03/20) ac fe'i mynychwyd. Ymatebodd yr ysgol yn gyflym i fam Plentyn C yn cael argyfwng a chynyddodd y ddarpariaeth yma i ddwywaith yr wythnos.
- Ym mis Ionawr 2021, gofynodd Gweithiwr Cymdeithasol y Garfan Plant Anabl am i gymhareb y staff cynorthwyol personol drwy'r darparwr gofal cartref gynyddu o 1:1 i 2:1 a chytunwyd i wneud hyn. Roedd hyn mewn ymateb i risgiau cynyddol a nodwyd yn ymddygiadau heriol Plentyn C. Mae'n hyrwyddo diogelwch staff a sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn parhau i fod yn ymarferol.
- Cafodd amlder cyswllt â'r teulu ei gynnal yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru er gwaethaf effaith COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys dull cyfunol o ymweliadau cartref a chysylltiadau ffôn gydag amcanion amrywiol.
- Roedd arferion diogelu plant Covid-19 ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi bod dim hawl mynd ar drywydd dadgofrestru yn ystod cyfnodau penodol, er bod cofnodion yn dangos bod yr ystyriaethau yma'n dal i gael eu harchwilio'n benodol yn ystod goruchwyliaeth (Hydref a Rhagfyr 2020).

Perthnasoedd proffesiynol yn dangos parodrwydd i ymateb ac yn hyrwyddo ymgysylltiad gyda'r teulu

- Nodir bod Gweithiwr Cymdeithasol y Garfan Plant Anabl wedi herio mam Plentyn C yn briodol mewn perthynas â honiadau, er iddi wynebu ymateb gelyniaethus. Mae'r chwilfrydedd proffesiynol yma a'r gallu i herio yn hollbwysig i sicrhau bod anghenion a diogelwch y plentyn yn parhau i fod yn ffocws cyfranogiad.

- Mae'n ymddangos bod cyfathrebu agored rhwng mam Plentyn C, ei nain ar ochr y fam a gweithwyr proffesiynol. Gwnaed datgeliadau bwriadol gan y ddwy, yn enwedig i'r adran Gwasanaethau i Blant, er eu bod nhw'n debygol o wahodd craffu neu bryder proffesiynol.
- Anogwyd mam plentyn C i geisio cymorth pan yr oedd mewn anhawster neu pan fydd yn cyrraedd argyfwng a derbyniodd ymateb cyflym ac effeithiol gan weithwyr proffesiynol. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Nyrs Epilepsi yn ymateb i bryderon am ymddygiadau a phresgripsiwn Plentyn C ac yn cysylltu ar unwaith â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i fynd i'r afael â'r mater (Chwefror 2021, Medi 2021).
- Roedd cynrychiolwyr addysg yn canolbwyntio ar gael atebion pan gododd problemau. Mae enghreifftiau'n ymwneud â darparu strategaethau a dewisiadau eraill pan ddaeth ymddygiad Plentyn C yn heriol wrth iddi gael ei chludo i'r ysgol.
- Roedd yr Adran Addysg yn gyson o ran rhoi cyngor a ffiniau clir. Pan geisiodd mam Plentyn C drosglwyddo meddyginiaeth i hebryngwyr cludo neu ofyn iddyn nhw gymryd camau y tu allan i'w cylch gwaith, rhoddodd cynrychiolwyr yr Adran Addysg ganllawiau priodol iddyn nhw'n gyflym ac amlinellodd ymddygiadau disgwyliedig.

## Gwella Systemau ac Ymarfer

*Er mwyn hyrwyddo dysgu yn sgil yr achos yma, nododd yr Adolygiad y gweithrediadau canlynol ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'i asiantaethau partner, a'r deilliannau gwell sy'n cael eu rhagweld*: -

Er bod enghreifftiau o arfer da wedi'u nodi ar draws asiantaethau, erys gwersi craidd yn yr achos yma sydd wedi'u trosi i argymhellion lleol ar gyfer Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono.

1. Mae'r Awdurdod Lleol i sicrhau, lle na nodir cworwm, bod Cadeiryddion Cynadleddau Amddiffyn Plant yn ystyried yn llawn ac yn cofnodi bob amser bod opsiwn i ohirio'r cyfarfod neu, fel arall, y rhesymeg dros gynnal y cyfarfod. Ystyriaeth o'r fath fyddai caniatáu'r asiantaethau perthnasol i gyfranogi'n llawn.

2. Pob asiantaeth o dan y bwrdd diogelu i sicrhau eu bod nhw'n nodi'r gweithwyr proffesiynol cywir i fynychu Cynadleddau Amddiffyn Plant a all fod mewn sefyllfa i ddarparu'r wybodaeth berthnasol sy'n bwrpasol i'r plentyn/plant sy'n cael ei ystyried. Mae hyn yn cynnwys y broses o nodi'r holl asiantaethau ac arbenigedd sy'n ymwneud â'r plentyn cyn gynted â phosibl.

3. Pob asiantaeth sy'n cyfrannu i sicrhau bod Adolygiadau Gofal a Chymorth yn ddigon cadarn o ran presenoldeb a chyfraniad. Dylai'r rhain ystyried y camau gweithredu yn y cynlluniau Gofal a Chymorth perthnasol sy'n nodi deilliannau mesuradwy.

4. Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg i ystyried adolygu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar adrodd i Gynadleddau Amddiffyn Plant i sicrhau bod gwybodaeth

hanfodol berthnasol, gan gynnwys arbenigeddau, yn cael ei chasglu. Mae angen i'r canllawiau sicrhau bod profiad byw yn ogystal â gwybodaeth ffeithiol yn cael eu cofnodi.

5. Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg i adolygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a Chanllawiau eu Grŵp Craidd (Ebrill 2022) gyda'r bwriad o alinio'r ddau brotocol a sefydlu proses ar gyfer nodi'r cadeiryddion, mynychwyr a'r rhai sy'n cadw cofnodion mwyaf priodol ar gyfer Grwpiau Craidd.

6. Yr Awdurdod Lleol i adolygu ei broses ar gyfer dyrannu Gweithiwr Cymdeithasol ar ôl nodi pryderon amddiffyn plant, pan fod carfan eisoes yn ymwneud â'r teulu. Efallai na fydd dyraniad awtomatig i Weithiwr Cymdeithasol Diogelu Plant er lles gorau'r plentyn/plant a gallai gymhlethu llwybrau rhannu gwybodaeth. Y rhesymeg dros sicrhau bod y penderfyniad yma'n cael ei gofnodi'n glir a'i gyfathrebu â'r gweithwyr proffesiynol dan sylw.

7. Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg i ystyried adolygu sut mae modd cysoni ymholiadau ynghylch oedolion mewn perygl ac ymholiadau am amddiffyn plant sy'n ymwneud â'r un teulu o dan un pwynt cyswllt er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ac asesiad risg yn cael eu rhannu'n gyfannol ar gyfer yr uned deulu gyfan.

8. Mae'n rhaid i bob asiantaeth sicrhau bod cymorth ar gael i bob gweithiwr proffesiynol sy'n wynebu sefyllfaoedd heriol iawn a/neu elyniaethus wrth wneud eu gwaith.

Argymhellion Cenedlaethol:

Gwneir yr argymhelliad a ganlyn yn Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant CTMSB 04/2021 sy'n ymwneud â Phlentyn T. Mae'r Adolygwyr yn achos Plentyn C yn cefnogi'r argymhelliad yma:

*Mae'r adolygiad yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried comisiynu adolygiad llawn o systemau cofnodi, casglu a rhannu gwybodaeth gan yr adrannau Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Addysg a'r Heddlu. Dylid canolbwyntio'n glir ar leihau nifer y systemau gwybodaeth, symleiddio'r broses o rannu gwybodaeth a galluogi asiantaethau allweddol i gael rhagor o wybodaeth ar adegau allweddol o wneud penderfyniadau.*

<table>
<tr><th colspan="4">Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr</th></tr>
<tr><td>ADOLYGYDD 1</td><td>Kate Fitzgerald</td><td>ADOLYGYDD 2(ble y bo'n addas)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Datganiad o annibyniaeth o'r achos<br>Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd</td><td colspan="2">Datganiad o annibyniaeth o'r achos<br>Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwnaf y datganiad canlynol<br><br>Cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu yma:-<br><br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, na wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos<br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferwr/ymarferwyr dan sylw<br>• Mae'r cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth, a'r profiad priodol gyda fi ac rydw i wedi cael yr hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad<br>• Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a gafodd eu nodi yn y Cylch Gorchwyl.</td><td colspan="2">Gwnaf y datganiad canlynol<br><br>Cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu yma:-<br><br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, na wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos<br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferwr/ymarferwyr dan sylw<br>• Mae'r cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth, a'r profiad priodol gyda fi ac rydw i wedi cael yr hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad<br>• Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a gafodd eu nodi yn y Cylch Gorchwyl.</td></tr>
<tr><td>Adolygydd 1<br>(Llofnod)</td><td>…………………</td><td>Adolygydd 2<br>(Llofnod)</td><td>……………………</td></tr>
<tr><td>Enw<br>(Llythrennau bras)</td><td>Kate Fitzgerald</td><td>Enw<br>(Llythrennau bras)</td><td>……………………</td></tr>
<tr><td>Dyddiad</td><td></td><td>Dyddiad</td><td>……………………</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| *Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)* | Eve Davis |
| **Enw** *(Llythrennau bras)* | ………………… |
| **Dyddiad** | |

**Atodiad 1**: Cylch Gorchwyl

**Atodiad 2:** Amserlen gryno

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad derbyn yr wybodaeth ………………………..

Dyddiad yr anfonwyd llythyr cydnabod i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu …………………………

Dyddiad rhannu ag arolygiaethau perthnasol/Arweinwyr Polisi .........................

| Asiantaethau | Ydw | Nac ydw | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | ☐ | ☐ | |
| Estyn | ☐ | ☐ | |
| AGIC | ☐ | ☐ | |
| Arolygydd Heddlu ei Fawrhydi | ☐ | ☐ | |
| Arolygydd Gwasanaeth Prawf ei Fawrhydi | ☐ | ☐ | |

**PANEL ADOLYGIAD YMARFER PLANT CRYNO BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG 06/2021**

**Manylion Cyfeirnod yr Achos**
Plentyn C CTMSB 06/2021

**Amgylchiadau'n arwain at yr Adolygiad Ymarfer Plant**
Darganfuwyd Plentyn C o dan y dŵr yn y bath, ym mis Medi 2021. Cymerwyd tystiolaeth gan y ddau riant yn y cyfeiriad, a chredir bod Plentyn C wedi cael ei gadael yn y bath ar ei phen ei hun.
Roedd gan Blentyn C oedi datblygiadol, epilepsi ac anableddau dysgu. Roedd ganddi hefyd anghenion sylweddol ac roedd ganddi alluedd meddyliol tebyg i blentyn tua 18 mis oed.
Mae'r teulu wedi bod yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ers 2010. Mae enwau Plentyn C a'i brodyr a chwiorydd wedi'u rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddau achlysur gwahanol. Roedd eu henwau ar y rhestr o fis Ebrill 2014 i fis Rhagfyr 2014 o dan y categori niwed corfforol ac o fis Tachwedd 2019 i mis Ionawr 2021 o dan y categori Esgeulustod a Cham-drin Rhywiol.

**Asiantaethau yn ymwneud â'r achos**
Roedd yr asiantaethau canlynol yn ymwneud â Phlentyn T, a bydd y rhain yn cwblhau llinell amser a dadansoddiad o'u hymwneud ag e:

- Gwasanaethau i Blant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Heddlu De Cymru
- Addysg

**Tasgau craidd**

Tasgau craidd y Panel Adolygu Ymarfer Plant yma yw:

- Darganfod a oedd penderfyniadau a chamau gweithredu'r achos yn cydymffurfio â gweithdrefnau'r gwasanaethau sydd wedi'u henwi, a'r Bwrdd
- Archwilio sut mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd a sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i'r unigolyn ac i'r teulu
- Darganfod i ba raddau roedd y penderfyniadau a'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol y teulu a rhoi gwybod iddyn nhw am agweddau allweddol ar y datblygiadau
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau tebyg neu drafodion yn ymwneud â'r achos
- Cynnal sesiwn ddysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau sydd eu hangen

Tasgau penodol y Panel Adolygu:

- Pennu a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r Panel Adolygu yn unol â'r canllawiau ar gyfer ymarfer plant
- Cytuno ar amserlen
- Pennu asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol i gyfrannu at yr adolygiad, llunio llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eisoes wedi eu cymryd
- Llunio llinell amser gyfunedig, dadansoddiad a damcaniaethau cychwynnol
- Trefnu sesiwn ddysgu i ymarferwyr gyda'r adolygydd/adolygwyr, a fydd yn cynnwys pennu ymarferwyr i fod yn bresennol a threfniadau i'w paratoi nhw a bod yn gymorth iddyn nhw cyn ac ar ôl y sesiwn, ynghyd â threfniadau adborth
- Cynllunio gyda'r adolygydd/adolygwyr drefniadau i gysylltu ag aelodau'r teulu cyn y sesiwn
- Derbyn adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer plant/oedolion, a'i ystyried i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni, bod y rhagdybiaethau gwreiddiol wedi cael sylw priodol, a bod unrhyw beth sydd wedi'i ddysgu o'r broses wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad ac amlinelliad o'r cynllun gweithredu, a gwneud trefniadau ar gyfer ei gyflwyno i'r Bwrdd Diogelu Cwm Taf i gael ei ystyried a'i gytuno.
- Trefnu adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl ei orffen, a chyn ei gyhoeddi

**Aelodau'r panel**

| ENW | TEITL | SEFYDLIAD |
|---|---|---|
| Eve Davis (Chair) | Cadeirydd Annibynnol | Heddlu De Cymru |
| Kate Fitzgerald (Adolygydd) | Adolygydd Annibynnol | Y Gwasanaeth Prawf |
| Jon Eyre (Adolygydd) | Adolygydd Annibynnol | Gwasanaethau Cymdeithasol Merthyr Tudful |

| | | |
|---|---|---|
| Claire Holt | Rheolwr Datblygu'r Gweithlu | Gwasanaethau i Blant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Sue Hurley | Rheolwr Diogelu Pobl Agored i Niwed | Heddlu De Cymru |
| Emma Rees | Nyrs Arbenigol | Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg |
| Gail Biggs | Rheolwr Carfan Ymgysylltu Addysg | Adran Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |

**Meysydd Canolbwynt Ychwanegol**
Dim meysydd canolbwynt ychwanegol.

**Unrhyw adolygiadau cyfochrog neu waith arall o'r fath i gael eu nodi**
Dim adolygiadau cyfochrog parhaus, ac eithrio achosion troseddol.

**Amserlen ar gyfer yr Adolygiad**

Bydd yr Adolygiad yn rhedeg o 1 Medi 2020 i 13 Medi 2021. Cafodd adroddiadau cryno eu cwblhau cyn hyn.

**Sesiwn ddysgu**
Bydd y sesiwn ddysgu yn sicrhau bod llais ymarferwyr yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr adolygiad a bod modd i ymarferwyr glywed safbwyntiau'r teulu. Mae disgwyl i ymarferwyr a rheolwyr fod yn bresennol os ydyn nhw'n cael gwahoddiad. Bydd pob ymarferydd yn myfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd ac yn nodi'r hyn sydd wedi'i ddysgu er mwyn llywio ymarfer yn y dyfodol.

Mae'r Panel Adolygu yn gyfrifol am gynorthwyo'r adolygwyr i gynnal sesiwn ddysgu effeithiol.

Mae'n bur debyg y bydd y sesiwn dysgu yn cael ei gynnal ar 27 Medi 2022.

**Dyddiad Cwblhau**
Y dyddiad cwblhau sydd wedi'i bennu ar gyfer yr Adolygiad yw Ebrill 2023.

**Tasgau'r Bwrdd Diogelu**

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu
- Anfon yr adroddiad a'r cynllun gweithredu at asiantaethau perthnasol i gael sylwadau terfynol cyn ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer y cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygiadau, gan gynnwys y modd y bydd gwelliannau'r gwasanaeth a ragwelir yn cael eu pennu, eu monitro a'u hadolygu
- Trefnu i'w gyhoeddi ar wefan y Bwrdd
- Cytuno pryd a sut i rannu'r adroddiad ag asiantaethau a gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol

- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau cyhoeddus ac am
ymateb i sylw gan y cyfryngau ynghylch yr adolygiad nes bod y broses wedi'i chwblhau